Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:40 ar 27 TACHWEDD 2017, yn MedRus 1, Penbryn

Yn bresennol: Syr Emyr Jones Parry, Canghellor (yn y Gadair, heblaw am gofnod 29.9 i 29.11); Dr Timothy Brain, Trysorydd; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (hyd at gofnod 35); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Mr George Ashworth; Ms Anne Davies (hyd at gofnod 33); Mrs Janet Davies; Mr Keith Evans; Mrs Elizabeth France (yn y Gadair, ar gyfer cofnod 29.9 i 29.11); Mr Richard John; Ms Gwerfyl Pierce Jones (hyd at gofnod 33); Y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern; Dr Emyr Roberts; Dr Hazel Davey; Ms Kath Williams; Yr Athro Reyer Zwiggelaar (hyd at gofnod 42); Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu Undeb y Myfyrwyr Aberystwyth; a Mr Gwion Llwyd Williams, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Mr Rob Eastwood, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio (o gofnod 29 ymlaen); Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru a Chysylltiadau Allanol); Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu (hyd at gofnod 33); Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Mrs Bethan Owen, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Sefydliadol CCAUC.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol).

20. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Brexit

   Roedd Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor yn defnyddio pob dull sy'n agored iddynt i danlinellu pwysigrwydd canlyniad boddhaol i'r prifysgolion yn rhan o'r trafodaethau rhwng y Deyrnas Gyfunol a'r Undeb Ewropeaidd. Cyn Brexit, dylai'r Brifysgol geisio gwneud y mwyaf o bob cyfle a roddir gan gyllid Ewropeaidd tra'i fod yn dal ar gael i ni.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r Athro Emeritws Bobi Jones, cyn Athro yn Adran y Gymraeg.

21. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Trysorydd ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Campws Arloesedd a Menter Aberystwyth (AIEC) Cyf., swydd y'i penodwyd yn annibynnol iddi gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr.

22. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 04 Hydref 2017 (COU1718-031).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

23. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1718-032).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

24. GOHEBIAETH

1. Prifysgol Aberystwyth Mawrisiws

NODWYD

1. Yn union cyn dechrau'r cyfarfod, derbyniwyd gohebiaeth i sylw'r Cyngor oddi wrth gwmni Boston Campus Cyf yn gysylltiedig â'r trafodaethau sy'n parhau rhyngddynt â'r Brifysgol.

PENDERFYNWYD

2. Gan na fu digon o amser i gylchredeg y llythyr a'i ystyried cyn cyfarfod y Cyngor, byddai Gweithrediaeth y Brifysgol yn adolygu'r cynnwys ac yn paratoi ymateb i'w argymell fel sy'n briodol, i'w ystyried gan is-grŵp a sefydlwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (PCS) i archwilio materion yn ymwneud â'r gangen-gampws (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

25. ENNYD IECHYD A DIOGELWCH

NODWYD

1. Roedd y tywydd gwael iawn a gafwyd yn ddiweddar wedi bod yn gyfle i roi prawf ar drefniadau parhad busnes y Brifysgol, ac roedd y cwbl wedi gweithio'n dda.

2. Cafodd gwaith pellach ei wneud yn gysylltiedig â'r Polisi Teithio newydd, a byddai'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn ystyried adborth achlysurol ar y polisi er mwyn bod yn sicr ei fod yn cael ei weithredu'n gyson ledled y sefydliad.

26. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1718-033).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion ynglŷn â datblygiadau diweddar, gan gynnwys: datblygiad strategaethau; Campws Llanbadarn; cymynroddion; hyfforddiant i fyfyrwyr meddygol; cysylltiadau rhyngwladol; ac Arolwg Reid.

27. CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD (CGC)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Cynorthwyol Mark Godsell; a'r Cyfarwyddwr Cynllunio; yn ymgorffori Adroddiad Uchafbwyntiau Rhaglen, Dangosyddion Perfformiad

Allweddol, a chofnodion cyfarfod Grŵp y CGC i Arolygu'r Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2017 (COU1718-034).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, ac roedd yn cynnwys fersiynau diweddaraf rhai dogfennau allweddol fel y cawsant eu cyflwyno i Grŵp Arolygu'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 26 Hydref 2017.

2. Roedd rhagor o achosion busnes ar gyfer ailstrwythuro'n cael eu paratoi wrth i'r Brifysgol barhau i weithio tuag at dargedau effeithlonrwydd yn y Cynllun Cynaliadwyedd.

3. Byddai'r Cyfarwyddwr Strategaeth Newid yn dechrau yn y swydd yn y Brifysgol ar 10 Ionawr 2018. Blaenoriaeth allweddol i'r Cyfarwyddwr newydd fydd yr ailffurfio sefydliadol sydd ei angen er mwyn cyflawni'r arbedion sy'n weddill o'r rhai a dargedir yn y Cynllun Cynaliadwyedd. Y gobaith yw y gellir cyflwyno cynigion manwl am hyn i'r Cyngor ar 23 Mawrth 2018 (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

28. CYNLLUN STRATEGOL 2018-2023

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, yn cynnwys fersiwn ddiweddaraf drafft y Cynllun Strategol (COU1718-035).

NODWYD

1. Yn dilyn trafodaethau yn niwrnod encil y Cyngor, paratowyd fersiynau pellach o'r Cynllun Strategol newydd yng ngoleuni adborth yn deillio o gyfres o ymgynghoriadau â staff. Yn benodol, croesawodd yr aelodau'r camau i atgyfnerthu'r adran ar 'Gyfrifoldeb Dinesig' yn fersiwn ddiweddaraf y ddogfen, camau a gymerwyd i ymateb i adborth a dderbyniwyd gan aelodau'r Pwyllgor C&S ar 10 Tachwedd 2017.

2. Bu'r Is-Ganghellor mewn cyfarfod o Gyngor Tref Aberystwyth ar 13 Tachwedd 2017 i holi eu barn ynglŷn â'r adran 'Ymgysylltu â'r Gymuned', ac roedd trefniadau'n cael eu gwneud i ymgynghori â'r corff myfyrwyr. Byddai ystyriaeth yn cael ei roi i adolygu pellach ar y Cynllun drafft yn dilyn unrhyw adborth munud olaf a dderbynnir yn rhan o'r ymgynghoriadau.

3. Trafododd yr aelodau a oedd fersiwn gyfredol y Cynllun yn rhoi naratif digonol o ystyried y gynulleidfa darged. Cydnabuwyd y byddai cyfres o is-strategaethau'n cael eu datblygu yn fuan yn 2018 a fyddai'n rhoi mwy o fanylion ar agweddau penodol. Byddai Dangosyddion Perfformiad Allweddol hefyd yn cael eu cynnig i'r Cyngor eu cymeradwyo yn y Flwyddyn Newydd, fel y gallai'r corff llywodraethu gadw golwg ar y cynnydd a wneir wrth weithredu'r Cynllun Strategol newydd (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo mewn egwyddor Gynllun Strategol 2018-23 ar sail y fersiwn a gafodd ei chylchredeg i'r Cyngor, a gwahodd yr Is-Ganghellor i gynhyrchu, os oedd angen, fersiwn ddiweddarach erbyn 31 Rhagfyr i ymateb i unrhyw adborth munud olaf a dderbynnir, i'w gymeradwyo'n derfynol gan Gadeirydd y Cyngor ar ran y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

29. PANTYCELYN

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor, yn ymgorffori'r adroddiad ynghylch cyllido'r prosiect cyfalaf fel yr ystyriwyd gan y Pwyllgor C&S ar 10 Tachwedd 2017, cofnod drafft o'r trafodaethau yn y cyfarfod hwnnw o'r pwyllgor C&S, llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr Rhaglen Llywodraeth Cymru (LlC), sef 'Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif' yn cadarnhau bod cyllideb o £5miliwn wedi'i neilltuo i'r prosiect, a chrynodeb o ganfyddiadau cychwynnol cyfnod cyntaf Arolwg Cyflwr yr ystâd a wnaed ym mis Hydref 2017 (COU1718-036).

NODWYD

1. Ar 29 Mehefin 2016, roedd y Cyngor wedi ystyried adroddiad gan Fwrdd Prosiect Pantycelyn yn cyflwyno cynllun a argymhellwyd ar gyfer adnewyddu Pantycelyn yn neuadd breswyl i gynnwys 200 o ystafelloedd en-suite. Yn y cyfarfod hwnnw, cymeradwyodd y Cyngor y cynllun arfaethedig hwn a chadarnhau ei fwriad i fynd â'r prosiect yn ei flaen i ailagor Pantycelyn erbyn mis Medi 2019, yn amodol ar ganfod cyllid digonol.

2. I gyflawni bwriad y Cyngor, byddai angen penodi contractwyr trwy drefn gaffael briodol a dechrau ar y gwaith yn fuan yn 2018. Byddai angen felly i'r Cyngor glustnodi'r cyllid cyfalaf yn ystod y cyfarfod cyfredol fel y gallai'r prosiect symud yn ei flaen yn unol â hynny. Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf byddai adnewyddu Pantycelyn yn costio £12miliwn.

3. Bu'r Is-Ganghellor yn arwain y gwaith o ganfod ffynonellau ychwanegol o gyllid i gynorthwyo gofynion cyfalaf y Brifysgol, ac i ganiatáu i'r gwaith adnewyddu fynd yn ei flaen ochr yn ochr â phrosiectau cyfalaf blaenoriaethol eraill y Brifysgol. Ar 10 Tachwedd 2017, cafodd adroddiad yn nodi ffynonellau cyllido posibl ei gyflwyno i'r Pwyllgor C&S.

4. Roedd Cadeirydd y Cyngor, Darpar Gadeirydd y Cyngor, a'r Is-Ganghellor wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru i wneud cais am gyfraniad o £5miliwn tuag at gostau cyfalaf yr adnewyddu. Yn dilyn hynny, cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddent, yn amodol ar gyfraniadau safonol y byddai'r brifysgol yn gallu eu gwneud, yn barod i roi grant nad oedd yn ad-daladwy am y cyfanswm y gofynnwyd amdano. Roedd yr aelodau'n ddiolchgar iawn am y grant a gynigiwyd, sy'n cydnabod pwysigrwydd symud ymlaen â'r gwaith adnewyddu erbyn Medi 2019 yn unol â'r bwriad a gyhoeddwyd gan y Brifysgol.

5. Byddai gweddill y cyllid cyfalaf, sef £7miliwn, yn dod o gyfuniad o ryddhau cyfalaf o waddoliadau; denu rhagor o gyllid Ewropeaidd i elfen Aberystwyth o brosiect y Campws Arloesi, a fyddai yn ei dro yn rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa i ddefnyddio peth o'r cyllid a glustnodwyd eisoes ar gyfer y datblygiad hwnnw i adnewyddu Pantycelyn; a defnyddio cronfeydd o'r Gyllideb Gwarchod a Sefydlogi tuag at y gwelliannau y byddai'n rhaid i'r Brifysgol eu gwneud yn y pen draw i adeiledd allanol Pantycelyn.

6. Yn eu cyfarfod ar 10 Tachwedd 2017, cytunodd y mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor C&S y byddai'r gwaith a wnaed gan yr Is-Ganghellor a Gweithrediaeth y Brifysgol yng nghyswllt cyfleoedd cyllido yn golygu y gallai'r Cyngor haeru gyda llawer iawn o debygolrwydd y gallai'r cyfanswm o £12miliwn gael ei grynhoi trwy gyfuniad o'r ffynonellau a enwyd. Roedd y Pwyllgor C&S felly wedi argymell y dylai'r corff llywodraethu roi blaenoriaeth i Bantycelyn fel prosiect cyfalaf, a gwahodd Gweithrediaeth y Brifysgol i symud ymlaen i gaffael y cyllid.

7. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor C&S, roedd Gweithrediaeth y Brifysgol wedi gwneud gwaith ychwanegol ar sawl agwedd yn gysylltiedig â'r cynnig cyllido. Yn fwyaf arbennig, roedd yr Adran Gyllid wedi nodi cronfeydd ychwanegol o waddoliadau y gellid efallai ryddhau cyfalaf ohonynt tuag at brosiect cyfalaf. Hefyd, cafodd crynodeb o ganfyddiadau cychwynnol cam cyntaf Arolwg o Gyflwr yr ystâd a wnaed ym mis Hydref

2017 ei baratoi, a ddangosai'n glir lefel y buddsoddi sydd ei angen yn ystâd y brifysgol dros y ddegawd nesaf.

8. Cafodd pryderon eu mynegi gan y Pwyllgor C&S ar 10 Tachwedd 2017 ynglŷn â chadw rheolaeth ar y llif arian o ganlyniad i adnewyddu Pantycelyn ar yr un pryd â blaenoriaethau cyfalaf eraill y Brifysgol. Cafodd yr ystyriaethau perthnasol eu nodi yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw. Byddai'n bosib i'r Brifysgol leihau unrhyw risgiau posibl trwy osod adnodd credyd cylchdroawl yn ei le. Cydnabuwyd y byddai adnodd o'r fath yn fanteisiol waeth beth fyddai'r gofynion gwariant cyfalaf, ac roedd y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro eisoes yn gwneud ymholiadau ynglŷn â hyn.

9. Wrth gydnabod y gallai symud ymlaen i adnewyddu Pantycelyn fod yn fforddiadwy o ganlyniad i'r cynnig grant gan Lywodraeth Cymru, mynegodd rhai aelodau bryder am y gostyngiad i gyllid cyfalaf a fyddai ar gael i'r prosiectau eraill Gwarchod a Sefydlogi y gallai'r Brifysgol ddymuno eu symud ymlaen cyn mis Medi 2019. Cafodd aelodau eu sicrhau y byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau ar sail achosion unigol wrth i gyfalaf ychwanegol ddod yn rhydd, er bod canfyddiadau cychwynnol yr Arolwg o Gyflwr yn awgrymu na fyddai'r rhan helaethaf o'r buddsoddi angenrheidiol yn yr ystâd yn codi tan 2020.

10. Cafodd dymuniad y corff myfyrwyr i roi blaenoriaeth i adnewyddu ac ailagor Pantycelyn erbyn mis medi 2019 ei bwysleisio gan y Myfyrwyr ymhlith yr Aelodau. Cydnabuwyd hefyd gyfrifoldeb y Brifysgol i'r genedl a'r Gymraeg, a'r ffaith y byddai buddsoddi i adnewyddu Pantycelyn yn atgyfnerthu cyfraniad y Brifysgol yn hyn o beth.

11. Roedd yr ymdrech a wnaed gan Fwrdd Prosiect Pantycelyn i weithredu'n agored dros y misoedd diwethaf wedi golygu bod y brifysgol wedi adennill ymddiriedaeth y rhai a fu'n feirniadol o'r penderfyniad i gau Neuadd Breswyl Pantycelyn yn yr haf 2015, a bod gan yr unigolion hyn ddisgwyliad rhesymol yn awr y byddai'r Brifysgol yn symud ymlaen yn unol â'i bwriad.

12. Atgoffwyd yr aelodau o'r gofynion a nodwyd yn y Cod Rheoli Ariannol y cytunwyd arno rhwng y Brifysgol a'r Cyngor Cyllido yng nghyswllt gwneud ymrwymiadau ariannol, ac o Reoliadau a Gweithdrefnau'r Brifysgol ei hun. Dadleuwyd ei bod yn rhesymol i'r Cyngor wneud penderfyniad ar sail adroddiad yr Is-Ganghellor a'r tebygolrwydd y gellid crynhoi'r cyfanswm o £12miliwn gan ddefnyddio'r ffynonellau cyllid gyda'i gilydd; roedd hyn felly'n cydymffurfio â gofynion amrywiol y Cyngor Cyllido a'r Brifysgol.

PENDERFYNWYD

13. Cytuno, ar ôl archwilio sefyllfa'r llif arian yn y dyfodol fel y nodwyd yn yr adroddiad ac wedi cael sicrhad bod y Brifysgol yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru yn achos y grant o £5miliwn na fyddai angen ei had-dalu, i (**PLEIDLAIS:** 15 o blaid, 4 yn erbyn) (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor):

    1. rhoi blaenoriaeth i Bantycelyn fel prosiect cyfalaf;

    2. symud ymlaen â'r cyllid fel y nodwyd yn yr adroddiad; a

    3. gwahodd Gweithrediaeth y Brifysgol i symud y prosiect yn ei flaen ac adrodd trwy'r Cyngor fel sy'n briodol.

14. Y dylai'r Is-Ganghellor gyflwyno adroddiad pellach i'r corff llywodraethu pe ceid trafferthion i dalu'r cyfanswm o £12miliwn o'r ffynonellau a enwyd, neu pe ceid cynnydd yn y costau uwchben y £12m y cyllidwyd ar ei gyfer (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

30. ADRODDIADAU DIWEDD BLWYDDYN

1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg (A&R) (ac Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilwyr Mewnol)

DERBYNIWYD

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg am 2016-17, yn ymgorffori Adroddiad a Barn yr Archwilwyr Mewnol am 2016-17 (COU1718-037).

NODWYD

1. Cyflwynwyd adroddiad ar waith y Pwyllgor A&R am y flwyddyn 2016-17 (hyd at ei gyfarfod diweddaraf) yn unol â Chod Rheoli Ariannol CCAUC (a ddaeth i rym ar 01 Awst 2017, ac a oedd yn cynnwys y Cod Ymarfer Archwilio cyfredol) a chyda dogfen 'Higher Education Code of Practice' Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC) (Rhagfyr 2014).

2. Roedd Deloitte, Archwilwyr mewnol y Brifysgol, hefyd wedi cytuno ar Adroddiad a Barn Blynyddol. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno i CCAUC yn ystod mis Rhagfyr 2017 ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor A&R ei hun.

3. Nid oedd KPMG wedi cwblhau eu harchwiliad allanol o Ddatganiadau Ariannol y Brifysgol ar ddyddiad cyfarfod y PA&R ar 09 Tachwedd 2017 lle cafodd drafft cynharach o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ei ystyried. Yn ystod y cyfarfod hwnnw trafodwyd ystyriaethau allweddol a fyddai'n dylanwadu ar gasgliadau'r Archwilwyr Allanol.

4. Ar sail drafft terfynol Memorandwm a Llythyr Rheolaethol yr Archwilwyr Allanol pan gyrhaeddodd, roedd aelodau'r PA&R wedi cytuno trwy ohebiaeth ar fersiwn ddiwygiedig o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, a roddai sicrwydd i'r Cyngor y gallai ddibynnu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol y Brifysgol, y systemau rheoli risg, a'r prosesau llywodraethu.

5. Ystyriodd yr aelodau eiriad yr Adroddiad yng nghyswllt natur y trafodaethau gyda'r Archwilwyr Allanol ar 09 Tachwedd 2017. Cadarnhaodd Cadeirydd y PA&R fod mwyafrif yr aelodau wedi cytuno ar y geiriad a'i fod yn rhoi crynodeb rhesymol o'r hyn a ystyriwyd ganddynt yn y cyfarfod hwnnw.

PENDERFYNWYD

6. Nodi'r Adroddiad Blynyddol, a gwahodd y PA&R i gyflwyno fersiwn yn cynnwys y geiriad diwygiedig a ddylai fod yn briodol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. Datganiadau Ariannol am 2016-17, gan gynnwys canlyniad yr Archwiliad Allanol

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Nansi George; yn ymgorffori'r Datganiadau Ariannol wedi'u harchwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2017, drafft terfynol Llythyr Rheolaethol a Memorandwm yr Archwilwyr Allanol, a Llythyr Cynrychiolaeth arfaethedig i'r Archwilwyr Allanol (COU1718-038).

NODWYD

1. Er y cytunwyd ar ddiffyg yn y gyllideb am 2016-17, oherwydd Safon Adrodd Ariannol (SAA) 102 byddai'r Brifysgol yn cofnodi gwarged ar ôl treth am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2017. Daeth hyn i fod yn bennaf ar ôl i'r Brifysgol dderbyn dwy gymynrodd fawr yn y cyfnod dan sylw. Serch hynny, diffyg

fyddai'n cael ei adrodd ar ôl cyfrif colledion actiwaraidd yng nghyswllt cynlluniau pensiwn.

2. Mewn ymgynghoriad â'r Archwilwyr Ariannol, roedd yr Adran Gyllid wedi cymryd camau i sicrhau adrodd yn briodol am incwm hanesyddol o gymynroddion er mwyn rhoi gwell darlun o'r arian sydd ar gael i'r Brifysgol, a'r hyn sy'n gysylltiedig â'r cymynroddion cyfyngedig. Er na fyddai hyn yn effeithio ar yr adrodd o dan SAA102, cafodd nodyn eglurhaol ei gynnwys yn y Datganiadau Ariannol.

3. Cafodd fersiynau drafft o'r Datganiadau Ariannol ac adroddiadau cysylltiedig eu hystyried gan y Pwyllgor A&R ar 09 Tachwedd, a chan y Pwyllgor C&S ar 10 Tachwedd 2017, ond nid oedd yr archwiliad allanol wedi ei gwblhau bryd hynny. Gwnaed mân newidiadau ar ôl hynny i'r Datganiadau Ariannol cyn eu hanfon i aelodau'r Cyngor er mwyn adlewyrchu canlyniad yr archwiliad allanol. Gwnaed rhai cywiriadau pellach ers hynny a byddai copi o'r ddogfen derfynol yn cael ei rhoi ar safle SharePoint (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

4. Mynegodd yr aelodau eu gwerthfawrogiad i'r Trysorydd, y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro, a'r Adran Gyllid am eu diwydrwydd yn paratoi Datganiadau Ariannol 2016-17.

5. Trafodwyd geiriad paragraff 8(ii) yn y Llythyr Cynrychiolaeth arfaethedig at yr Archwilwyr Allanol. Mynegwyd pryderon fod y drafft yn awgrymu y bu twyll i adrodd amdano yn ystod 2016-17 ac nid oedd hynny'n wir.

PENDERFYNWYD

6. Cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2017 (**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro).

7. Cymeradwyo drafft cyfredol y Llythyr Cynrychiolaeth at yr Archwilwyr Allanol, a byddai Cadeirydd y Cyngor, wrth lofnodi, yn cynnwys nodyn yn egluro na chafwyd enghreifftiau o dwyll i adrodd amdanynt yn ystod 2016-17 (**GWEITHREDU:** Cadeirydd y Cyngor).

3. <u>Datganiad Blynyddol Sicrwydd a Chynaliadwyedd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Nansi George, yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Sicrwydd Cynaliadwyedd am 2016-17, a'r Datganiad Sicrwydd Blynyddol am 2016-17 (COU1718-039).

NODWYD

1. Mae'n rhaid i'r Cyngor gytuno ar y Datganiad Blynyddol o Sicrwydd Cynaliadwyedd i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ym mis Rhagfyr 2017, ynghyd â'r Datganiad Ariannol wedi'i archwilio. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn fformat datgeliad safonol a awgrymir gan Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd Ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Cafodd yr ymateb arfaethedig ei ystyried gan y Pwyllgor A&R ar 09 Tachwedd, a chan y Pwyllgor C&S ar 10 Tachwedd 2017.

2. Rhaid i'r Is-Ganghellor, sef Swyddog Atebol y sefydliad, gyflwyno'r Datganiad Sicrwydd Blynyddol i'r Cyngor Cyllido yn ystod mis Rhagfyr 2017. Roedd copi o'r dogfennau a gyflwynir ar gael i aelodau'r Cyngor er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol o Sicrwydd Cynaliadwyedd i'w gyflwyno i CCAUC (**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Nansi George).

4. Datgeliad Deddf Caethwasiaeth Modern

DERBYNIWYD

Drafft y Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2017 (COU1718-040).

NODWYD

1. Yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Modern (2015), roedd y Brifysgol wedi drafftio Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl am y flwyddyn academaidd 2016-2017. Seiliwyd y drafft ar y Datganiad cyntaf o'r fath a wnaed gan y Brifysgol, a gymeradwywyd gan y Cyngor yn rhan o'r adrodd diwedd blwyddyn y llynedd, ac a gyhoeddwyd ar wefan y Brifysgol yn unol â gofynion y Ddeddf.

2. Cafodd yr adroddiad drafft ei ystyried gan y Pwyllgor A&R ar 09 Tachwedd, a chan y Pwyllgor C&S ar 10 Tachwedd 2017. Gwnaed mân newidiadau i'r adroddiad mewn ymateb i adborth a roddwyd gan yr aelodau yn y cyfarfodydd hynny.

3. Ar 23 Mehefin 2017, llofnododd y Brifysgol God Ymarfer Llywodraeth Cymru ynghylch Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mewn cyfarfod yn ddiweddar gyda Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg pa mor bwysig oedd hi fod prifysgolion yng Nghymru'n gweithredu'r Cod Ymarfer. Roedd y Brifysgol yn gweithio i gydymffurfio â'r un ymrwymiad ar ddeg yn y Cod, a bydd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn y Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2018.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

5. Datganiad Sicrwydd Ansawdd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Cynorthwyol Kim Braddick (COU1718-041).

NODWYD

1. Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd newydd i Gymru yn rhoi mwy o bwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd ynglŷn â materion ansawdd a safonau. Rhaid i gyrff llywodraethu gytuno ar y cyntaf o'u Datganiadau Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd a'i gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ym mis Rhagfyr 2017.

2. Yn ystod cylch cyfarfodydd Mawrth / Ebrill 2017, cytunodd y Senedd a'r Cyngor ar fformat yr adroddiad. Cafodd ei gynllunio i roi'r dystiolaeth briodol i'r Cyngor ar gyfer cadarnhau wrth y Cyngor Cyllido ei fod yn fodlon fod y Brifysgol wedi cyflawni ei rhwymedigaethau yn y gorffennol yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau ynglŷn â sicrwydd ansawdd, a'i bod yn parhau i wneud hynny.

3. Cyflwynwyd fersiwn o'r adroddiad i'r Senedd ar 15 Tachwedd 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd, yn amodol ar unrhyw newidiadau pellach a gynigir gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a oedd yn cyfarfod y diwrnod dilynol. Ers hynny diwygiwyd yr adroddiad yng ngoleuni trafodaethau'r Pwyllgor Sicrwydd Ansawdd.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo cyflwyno'r Datganiadau Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd i CCAUC ar sail yr holl sicrwydd a ddarparwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

5. Cywiro camgymeriadau teipio yn yr adroddiad a rhoi'r fersiwn derfynol ar safle SharePoint er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol (**GWEITHREDU:** Cofrestrydd Cynorthwyol Kim Braddick.

6. Ystyried sut y gall Aelodau Annibynnol archwilio cynnwys yr adroddiad blynyddol yn y dyfodol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

7. Trefnu sesiwn wybodaeth i aelodau'r Cyngor yn ystod y gwanwyn 2018 ynglŷn ag ansawdd academaidd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

8. <u>Adroddiad Blynyddol rhaglen 'Prevent'</u>

DERBYNIWYD

Drafft o Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd 'Prevent' (COU1718-042).

NODWYD

1. O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch roi sylw priodol i'r angen i rwystro pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth. Cyfeirir at hyn fel y 'Ddyletswydd Prevent' neu'r ddyletswydd i rwystro.

2. Yng nghyswllt 'Prevent', mae Fframwaith Monitro'r CCAUC i Ddarparwyr Addysg Uwch yng Nghymru'n cynnwys yr amod i gyflwyno'n ffurfiol Adroddiad Blynyddol, a Ffurflen Ddata.

3. Cafodd drafft o Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd 'Prevent' ei ystyried yn electronig gan aelodau Grŵp Arolygu Prevent y Brifysgol; gan y Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb ar 27 Hydref 2017; a chan Grŵp Gweithredu Strategol y Brifysgol ar 14 Tachwedd 2017, cyn ei gylchredeg i aelodau Cyngor y Brifysgol.

4. Croesawodd yr aelodau'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan y Brifysgol yng nghyswllt ei chyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd 'Prevent', ond tanlinellwyd y tensiwn naturiol sy'n bodoli rhwng y Protocol Siaradwyr Allanol sy'n ofynnol o dan y Ddyletswydd â'r disgwyliad mwy cyffredinol i Brifysgolion sicrhau Rhyddid i Lefaru.

PENDERFYNWYD

5. I gytuno ar y tri datganiad safonol a nodir yn yr adroddiad, a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i CCAUC (**GWEITHREDU:** Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

31. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro; a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell (COU1718-043).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol yn Chwarter 4 2016-17, yn ogystal â'r manylion diweddaraf am ddangosyddion perfformiad eraill sy'n gysylltiedig â chyllid.

32. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1718-044).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad y manylion ynglŷn â datblygiadau diweddar, gan gynnwys: Cofrestru mis Medi 2017; paratoadau am Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2018; cyflwyniad y Brifysgol i'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu; penderfyniad Llywodraeth Cymru i gadw ffioedd israddedigion Cartref / UE yn £9mil; a chais y Brifysgol am Gynllun Ffioedd a Mynediad 2019-20.

33. GRADDAU ER ANRHYDEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-045).

NODWYD

1. Ar 10 Tachwedd 2017, cyfarfu'r Pwyllgor Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd PA. Cyflwynwyd 43 o enwebiadau gan staff, myfyrwyr, Cymrodyr Anrhydeddus, ac eraill, am Gymrodoriaethau neu Raddau er Anrhydedd PA. Hefyd, cafodd un enwebiad a ystyriwyd yn wreiddiol ar 18 Hydref 2016 ei ailgyflwyno i'w ystyried ymhellach.

2. Amlinellai'r adroddiad argymhellion y Pwyllgor ynglŷn â dyfarnu Graddau er Anrhydedd. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Senedd ar 15 Tachwedd 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor eu cymeradwyo'n ffurfiol.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r enwebiadau a gynigiwyd am Raddau er Anrhydedd PA (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

34. FFRAMWAITH RHAGORIAETH ADDYSGU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio, a'r Uwch Swyddog Prosiectau (COU1718-046).

NODWYD

1. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn argymell y dylai'r Brifysgol gymryd rhan yng nghylch nesaf y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhA). Roedd yr adroddiad felly'n cynnwys drafft o destun arfaethedig y Brifysgol ar gyfer ei gyflwyno i'r FfRhA - dyddiad cau CCAULl i dderbyn cyflwyniadau yw 18 Ionawr 2018.

2. Trafododd yr aelodau ddrafft cyfredol y testun, yn ogystal â'r metrigau craidd a fyddai'n cael eu hystyried wrth roi ystyriaeth i gais y Brifysgol.

PENDERFYNWYD

3. Cefnogi'r argymhelliad y dylai'r Brifysgol gymryd rhan yng nghylch nesaf y FfRhA, a chopi o'r cyflwyniad terfynol a rennir â Chadeirydd y Cyngor cyn ei gyflwyno (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol)).

35. Y DDOGFEN CYNLLUNIO STRATEGOL AC YMGYSYLLTU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1718-047).

NODWYD

1. Roedd y Brifysgol yn datblygu ei chyflwyniadau blynyddol i'r Cyngor Cyllido yn rhan o brosesau'r Ddogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu. Yn ogystal ag adrodd ar yr amcanion a nodwyd yn y Ddogfen am 2016-17, roedd angen Dogfen newydd neu ddiwygiedig ar gyfer 2017-18 a 2018-19.

2. Byddai datblygiad Cynllun Strategol newydd yn darparu sail i'r Ddogfen Gynllunio ac Ymgysylltu a fyddai'n cael ei chyflwyno am y cyfnod 2017-18 a thu hwnt. Byddai amcanion y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd hefyd yn bwydo i gyflwyniad y Brifysgol.

PENDERFYNWYD

3. Y dylid rhoi manylion am ddatblygiad y Ddogfen newydd i Grŵp Arolygu'r Cyngor y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yn ei gyfarfod nesaf, a chylchredeg drafft o'r cyflwyniad i aelodau'r Cyngor gael ei adolygu a'i gymeradwyo trwy ohebiaeth yn ystod mis Rhagfyr 2017 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

36. YMDDIRIEDOLWYR CYNLLUN PENSIWN AC ASWIRIANT PRIFYSGOL ABERYSTWYTH (AUPAS)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Nansi George (COU1718-048).

NODWYD

1. Yn eu cyfarfod ar 09 Tachwedd 2017, gwnaed cais gan Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth i gael ychwanegu ymddiriedolwr pellach, er mwyn cael cynrychiolaeth o'r tair Undeb Llafur a gydnabyddir gan y Brifysgol. Ystyriwyd y cais gan y Pwyllgor C&S ar 10 Tachwedd 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD

2. Cynyddu nifer Ymddiriedolwyr AUPAS o naw i ddeg, pedwar Ymddiriedolwr i'w henwebu gan y Brifysgol a chwech gan yr Undebau Llafur neu aelodau'r cynllun pensiwn (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol).

37. ADRODDIAD GAN SWYDDOG DATBLYGU UMABER

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Datblygu UMAber (COU1718-049).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf am y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

38. ADRODDIADAU BLYNYDDOL O'R IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys adroddiadau blynyddol o'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a'r Uwch Bwyllgor Taliadau.

NODWYD

Ers blwyddyn academaidd 2016-17 roedd is-bwyllgorau'r Cyngor wedi cyflwyno adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethu ar eu gwaith yn y flwyddyn academaidd flaenorol, gan gyfeirio'n benodol at y materion a ystyriwyd ac a gymeradwywyd yn unol â'r awdurdod a ddirprwywyd iddynt gan y Cyngor, yn ogystal ag amlinellu gwaith arfaethedig yr is-bwyllgor dros y misoedd i ddod.

39. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1718-051).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

40. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-052).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y defnyddiodd y Cadeirydd y Pwerau Gweithredol y darperir ar eu cyfer gan Reol Sefydlog 6.11.

2. Y materion a gymeradwywyd trwy Gamau Gweithredol gan y Cadeirydd oedd:

    1. dull sgorio ar gyfer caffael gwasanaethau archwilio;

    2. ymateb y Brifysgol i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru: "Public Good and A Prosperous Wales – Building a Reformed Post-Compulsory Education and Training (PCET) system";

    3. y Brifysgol yn cytuno i brydles yn achos cangen gampws Mawrisiws.

41. ADRODDIADAU O BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (COU1718-053):

1. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (10 Tachwedd 2017);

2. Pwyllgor Archwilio a Risg (03 Hydref a 09 Tachwedd 2017);

3. Y Senedd (15 Tachwedd 2017);

4. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (09 Tachwedd 2017);

5. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb (27 Hydref 2017);

6. Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg (07 Mehefin 2017);

7. Pwyllgor Graddau er Anrhydedd (10 Tachwedd 2017); a

8. Grŵp Gweithredol y Brifysgol) (27 Medi; 08, 24, a 31 Hydref 2017).

NODWYD

9. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth - 10 Tachwedd 2017

    1. Roedd aelodau'r pwyllgor wedi cael adroddiad o'r manylion diweddaraf ynglŷn â phrosiect y Campws Arloesi, a'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo i sicrhau bod costau'r prosiect yn cadw o fewn i'r gyllideb y cytunwyd arni.

    PENDERFYNWYD

    2. Y dylai'r Trysorydd ysgrifennu'n ffurfiol at y BBSRC i amlinellu cynnydd y prosiect hyd yn hyn, ac i danlinellu ymrwymiad y Brifysgol i'r prosiect (**GWEITHREDU:** Y Trysorydd.

10. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.

42. UNRHYW FATER ARALL

1. Ffarwelio

    1. Y cyfarfod hwn o'r corff llywodraethu oedd yr olaf i Syr Emyr Jones Parry am ei fod yn ymddeol fel Canghellor a Chadeirydd y Cyngor wrth i'w gyfnod ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Talwyd teyrnged i gyfraniad aruthrol Syr Emyr i'r Brifysgol, a fyddai'n cael ei gydnabod yn ffurfiol mewn cinio i'w anrhydeddu'r noson honno.

    2. Byddai cyfnod Janet Davies ar y Cyngor yn dod ben ar 31 Rhagfyr 2017. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad i'r Brifysgol dros y chwe blynedd ddiwethaf.

    3. Byddai Rob Eastwood yn gadael y Brifysgol ym mis Ionawr 2018 ar ôl i'r Cyfarwyddwr Cyllid newydd ddechrau yn y swydd. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad dros y misoedd diwethaf.

2. Anerchiad gan ddarpar-Gadeirydd y Cyngor

    1. Talodd Dr Emyr Roberts, darpar Gadeirydd y Cyngor, deyrnged i Syr Emyr Jones Parry am y seiliau cadarn a osododd i'r Brifysgol yn ystod ei gyfnod yn Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor.

    2. Byddai dau le gwag yn codi am Aelodau Annibynnol ar y Cyngor o ganlyniad i'r ffaith fod tymhorau Syr Emyr Jones Parry a Janet Davies yn dod i ben. Byddai cyfarfod o'r Pwyllgor Enwebiadau'n cael ei gynnal felly yn ystod mis Ionawr i ddechrau ar y drefn o ddenu aelodau newydd ar y corff llywodraethu.

    3. Yn y flwyddyn newydd, byddai'r darpar Gadeirydd yn gweithio gydag Ysgrifennydd y Brifysgol i gynnal archwiliad sgiliau ymhlith aelodau'r Cyngor. Bwriadai'r darpar Gadeirydd hefyd gynnal trafodaethau unigol â phob aelod o'r Cyngor i holi eu barn am y ffordd y dylai'r Cyngor a'i is-bwyllgorau weithredu yn y

dyfodol. Trefnir y trafodaethau hyn gan Ysgrifennydd y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

4. Gan fod Dr Emyr Roberts wedi'i benodi'n Gadeirydd y Cyngor ni allai bellach fod yn aelod o'r Pwyllgor A&R. Byddai angen penodi Cadeirydd newydd ar y Pwyllgor hwnnw am y cyfnod o 01 Ionawr 2018 ymlaen, yn ddelfrydol o blith aelodau cyfredol y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD

5. Penodi George Ashworth yn Gadeirydd y Pwyllgor A&R am gyfnod o flwyddyn yn dechrau ar 01 Ionawr, 2018 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).